

Apêl Argyfwng Indonesia

Gobeithiwn fedru dangos cefnogaeth yr ofalaeth i'r miloedd lawer sydd wedi'u heffeithio gan y daeargryn grymus a achosodd tswnami arswydus a gadael dinistr enfawr ar ei ôl yn Ynys Sulawesi yn Indonesia yn ddiweddar. O ganlyniad, mae bywydau cymaint o bobl mewn perygl ac maent angen cymorth ar frys.

Bwriadwn gyfrannu trwy law *Tearfund* ac mae amlenni melyn pwrpasol (Apêl Argyfwng) ar gael ymhob eglwys os dymunwch wneud hynny. Gwnewch unrhyw siec yn daladwy i **"GOFALAETH BRO ALED"**, os gwelwch yn dda, ac os ydych yn talu treth, byddai gwerth eich cyfraniad hyd yn oed yn fwy os medrwch lenwi'r ffurflen rhodd cymorth sy'n amgaeedig hefo'r amlen. Byddem yn ddiolchgar petaech yn rhoi yr amlen i drysorydd eich eglwys neu i Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF **cyn diwedd Hydref**, os gwelwch yn dda, fel y medrwn anfon yr arian ymlaen fel un cyfraniad gan Eglwysi Bro Aled mor fuan ag sydd bosibl wedi hynny. Diolch ymlaen llaw i chi am eich cefnogaeth.



Rhaglen Cymantuo Canu 2018-19

Os hoffech gael copi o'r Detholiad ar gyfer 2018-19 (Hen Nodiant a/neu Sol-ffa), rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul **erbyn dydd Sul, Hydref 21^{ain}**, os gwelwch yn dda. Pris: £1.50. (Arolygwyr: Wnewch chi roi eich archeb i Mair erbyn dydd Llun, Hydref 22^{ain}, os gwelwch yn dda?)

I ddod

- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL CEFN MEIRIADOG** nos Fawrth, Hydref 30ain am 7.00 gyda'r Parch. Rhun Murphy yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Tachwedd 2il-4ydd. Mae £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Gallwch ffonio 01678 520565 i gael ffurflen bapur neu medrwch archebu lle ar-lein: colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg.
- **MAETH – CEFNOGAETH GRISTNOGOL I AMAETHWYR.** Cyfarfod sy'n agored i bawb yng Nghanolfan Bryn-y-Groes, Y Bala dydd Sadwrn, Tachwedd 17eg am 2.00. Siaradwyr: Ifan Mason Davies, Goginan ac Aled Jones, Dirprwy Lywydd NFU Cymru. Bydd bwyd ar ôl y cyfarfod – am ddim!

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, Hydref 14^{eg}, 2018

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes i bawb ohonoch i'n gwasanaethau ar draws Bro Aled. Â ninnau yng nghanol tymor diolchgarwch, gweddiwn ar i Dduw ddangos i ni trwy ei Ysbryd mor fawr yw ei allu, ac mor brydferth yw ei gariad achubol tuag at ei bobl yn Iesu Grist. Ac wrth i ni ryfeddu at yr hyn a wnaeth yr Arglwydd a chael cysur wrth bwyso ar Ei addewidion, gofynnwn am arweiniad yr Ysbryd i foli a diolch i'r Un sydd wedi'n caru 'cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.' (Ioan 3:16)

Heno, byddaf yn mynd i hyfforddiant Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ar ddiogelu data. Does gen i ddim syniad beth yn union fydd yn cael ei ddweud, ond dwi'n gobeithio y bydd gennym syniad gwell fel gofalaeth o'r ffordd ymlaen wedi inni gael ein rhoi ar ben ffordd. Y tu ôl i'r ddeddf newydd ar ddiogelu data mae yna fwrriad doeth i warchod gwybodaeth bersonol ac i geisio diogelu preifatrwydd unigolion. Profiad digon anghyfforddus yw derbyn galwadau gan rai sy'n gwybod eich enw, cyfeiriad, ayyb a chithau heb unrhyw syniad pwy sydd ben arall y ffôn, na sut y maent yn gwybod cymaint amdanoch! Ond ydych chi erioed wedi meddwl pwy sy'n gwybod pob manylyn personol amdanoch? Nid cyfeirio at sgamwyr, cyfaill agos na hyd yn oed gymar oes ydw i yma, ond at ein Creawdwr. Mae'r Llythyr at yr Hebraid yn dweud: 'Does dim byd drwy'r greadigaeth gyfan yn gallu cuddio oddi wrth Dduw. Mae e'n gweld popeth yn glir. A dyma'r Duw dyn ni i gyd yn atebol iddo.' (Hebraid 4:13 Beibl.net) Mae'r Arglwydd yn gweld y cyfan – nid gweithredoedd yn unig ond hefyd y meddyliau pechadurus a hunan gyfiawn nad ydym hyd yn oed yn eu cydnabod! Brawychus? Mae'r Arglwydd hefyd wrth gwrs yn gweld ein poenau a'n gofidiau dwysaf, y rhai nad ydym yn barod i'w rhannu ag eraill – ac mae'r Gair yn ein hatgoffa fod Iesu yn archoffeiriad sy'n cyd-ddioddef â'n gwendidau ni. (Hebraid 4:15)

Ein rhesymeg yn aml dros geisio cuddio pethau rhag eraill yw cywilydd neu ofn – beth fyddant yn ei feddwl ohonof, wnawn nhw droi cefn arnaf wrth weld yr ochr arall i bwy ydw i? Yn y Beibl cawn glywed am Dduw sy'n datgan ei farn yn eglur ar ein drygioni, ond sydd hefyd wedi trefnu ffordd i faddau ein holl bechodau. Gwêl yr Arglwydd bopeth amdanom ond, o ddod at Iesu mewn ffydd ac edifeirwch, gallwn fod yn hyderus o'i gariad diddiwedd tuag atom. Gwrthodwyd Iesu ar y Groes er mwyn i'w ddisgyblion gael eu derbyn yn blant tragwyddol i'w Tad. Diolch Iddo!

Rhodri

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 14^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 17^{eg} ➤ **Moli** – Noson anffurfiol i addoli ac astudio yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Iau – 18^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Sul nesaf – 21^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.
- Mercher – 24^{ain} ➤ **Torri Syched** – grwpiau tai am 7.30.
- Iau – 25^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 26^{ain} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul canlynol – 28^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 14^{eg} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf – 21^{ain} ➤ Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa i'r daith **yng Nghefn Meiriadog am 10.30** a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul canlynol – 28^{ain} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yno hefyd y bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 14^{eg} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00 a bydd y Parch. Helen Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00.
- Mercher – 17^{eg} ➤ Gŵyl Ddiolchgarwch Capel Llanefydd – Cynhelir Swper a Sgwrs yn Neuadd Llanefydd am 7.00. Sgwrs gan y Parch. Aneurin Owen. Enwau i Manon, Bryn Deunydd **erbyn dydd Sul (14eg)**, os gwelwch yn dda. Oedolion: £2 Plant: £1.
- Gwener – 19^{eg} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul (14eg)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 21^{ain} ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.
- Sul canlynol – 28^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 14^{eg} ➤ Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Cynhelir Oedfa Diolchgarwch yn Nantglyn am 2.00 o dan arweiniad y Parch. Dafydd Rees Roberts.
- Llun – 15^{fed} ➤ Cymdeithas Llansannan – Sgwrs a lluniau gwych "Natur drwy'r flwyddyn" yng nghwmni Eifion a Myfyr Griffiths yn Festri Llansannan am 7.30.
- Mawrth – 16^{eg} ➤ 'Paned a Sgwrs' yn Festri Llansannan o 1.30-3.30 a bydd Sheila Dafis yn dangos yn dangos casgliad o ddillad hynafol.
- Mercher – 17^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (14eg)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 21^{ain} ➤ Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg a'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mawrth – 23^{ain} ➤ Bydd y Pwyllgor Adeiladau yn cyfarfod yn Llansannan am 7.30.
- Mercher – 24^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (21ain)**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 28^{ain} ➤ Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg, a'r oedolion am 11.10.
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 14^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 21^{ain} ➤ Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yno hefyd y bydd y Parch. Aneurin Owen yn arwain oedfa i'r daith am 2.00.
- Mercher – 24^{ain} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Pant Pastynog yng Nghapel Saron am 1.30 a 6.00.
- Sul canlynol – 28^{ain} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 14^{eg} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 21^{ain} ➤ Bydd y Parch. Aneurin Owen yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00 a bydd Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul canlynol – 28^{ain} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00 a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00.